

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

12 Ebrill 2017

Annwyl gyfaill

Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd;

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cytuno i gynnal tri ymchwiliad i dlodi yng Nghymru. Yn y misoedd nesaf, byddwn yn ystyried:

- Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd;
- Dulliau yn seiliedig ar asedau i leihau tlodi; a
- Gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel

Ar hyn o bryd, rydym am gael eich barn am yr ymchwiliad i Gymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd. Ein bwriad yw gwneud darn byr o waith â diben ganolog. Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith hwn yn helpu i lunio polisi'r dyfodol a'r trefniadau trosiannol wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben, a hynny drwy adolygu'r hyn sydd wedi gweithio'n effeithiol yn y rhaglen bresennol.



Dyma ein cylch gorchwyl:

- beth a fu'n llwyddiant a beth na fu'n llwyddiant i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- sut y bydd awdurdodau lleol yn penderfynu pa brosiectau a fydd yn parhau i dderbyn cyllid ar ôl mis Mehefin 2017; a
- sut y bydd gwahanol raglenni lleihau tlodi (Cymunedau am Waith, Esgyn, Dechrau'n Deg, ac ati) yn newid ar ôl i Gymunedau yn Gyntaf ddod i ben.

Rydym yn am gael barn pob corff cyflawni arweiniol ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, ynghyd â phob clwstwr, yn ogystal â rhanddeiliaid yn y trydydd sector, fel y WCVA a Sefydliad Bevan. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad ysgrifenedig, bydd Aelodau'r Pwyllgor hefyd am ymweld â rhai o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn ystod gwaith y Pwyllgor.

Bydd yr ymatebion ysgrifenedig yn helpu i lywio'r sesiynau tystiolaeth lafar yr ydym yn bwriadu eu cynnal yn gynnar ym mis Mehefin. Rydym felly am i unrhyw gyflwyniadau gael eu cyflwyno erbyn **dydd Llun 22 Mai**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y [canllawiau i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau](#).



Polisi dwyieithrwydd

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn <http://www.assembly.wales/cy/help/privacy/Pages/help-inquiry-privacy.aspx>. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.



E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhif ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir



John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

